**Teitl: Yr Amgylchedd**

<table>
<tr><th>Teitlau</th><th>Creu’r Byd</th><th>Stiwardiaeth</th><th>Sut mae crefyddau yn ymateb i’w cyfrifoldeb</th></tr>
<tr><td>Rhesymeg</td><td colspan="3">
YMWADIAD: Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.
Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'<br>
Drwy ddysgu am Yr Amgylchedd fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:<br>
• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>
• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>
• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>
• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.
Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru<br>
Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:
<ul>
<li>Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio</li>
<li>Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau</li>
<li>Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain</li>
<li>Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain</li>
<li>Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes</li>
<li>Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol</li>
<li>Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt</li>
<li>Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd</li>
<li>Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt</li>
</ul>
Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
</td></tr>
</table>

| **Teitlau** | **Creu'r Byd** | **Stiwardiaeth** | **Sut mae crefyddau yn ymateb i'w cyfrifoldeb** |
|---|---|---|---|
| | **Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r is-lensys isod:**<br>• <u>Chwilio am ystyr a diben;</u><br>• <u>Y byd naturiol a phethau byw;</u><br>• <u>Hunaniaeth a pherthyn;</u><br>• <u>Awdurdod a dylanwad;</u><br>• <u>Perthnasoedd a chyfrifoldeb;</u><br>• <u>Gwerthoedd a moeseg;</u><br>• <u>Taith bywyd;</u><br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>**Dolenni Defnyddiol:**<br>**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance**<br>**Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities**<br>**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/**<br>**Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes** | | |
| **Geirfa allweddol** | FFWNDAMENTALWYR – rhai sy'n credu bod pob manylyn yn llyfr sanctaidd y grefydd yn llythrennol wir, *fundametalists*<br><br>GENESIS – Llyfr cyntaf yr Hen Destament a'r Torah Iddewig<br><br>ADDA ac EFA – y geiriau Hebraeg am ŵr a gwraig, *Adam and Eve* | TRYCHINEBAU NATURIOL – digwyddiadau dinistriol ym myd natur nad oes gan ddynoliaeth reolaeth drostynt.<br><br>NEWID HINSAWDD – newidiadau ym mhatrwm y tywydd dros gyfnod o amser.<br>CYNHESU BYD EANG – y modd y mae tymheredd y byd wedi cynhesu dros amser, yn arbennig dros yr hanner can mlynedd diwethaf. Mae rhai yn disgrifio hyn fel effaith tŷ gwydr. | Allyriadau -*emissions*<br>Ymgyrchu- gweithredu o blaid rhywbeth, *campaign*<br>Tanwydd ffosil: er enghraifft glo, nwy. Ynni sy'n cael ei ffurfio'n naturiol *fossil fuel*<br>Tymheredd craidd: *basic temperature*<br>DG: Y Deyrnas Gyfunol (weithiau'r Deyrnas Unedig), UK *United Kingdom*<br>Cynaliadwy: *sustainable*<br>Ymrwymiad: *commitment* |

| Teitlau | Creu'r Byd | Stiwardiaeth | Sut mae crefyddau yn ymateb i'w cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| | HEBRAEG – iaith wreiddiol yr Hen Destament, *Hebrew*<br><br>EDEN - gardd a blannwyd gan Dduw yn ôl Genesis - mae'n cynrychioli Paradwys<br><br>AR LUN A DELW – yn debyg<br><br>AMGYLCHFYD – y byd o'n cwmpas<br><br>DAMCANIAETH Y GLEC FAWR - damcaniaeth sy'n ceisio egluro sut y cychwynnodd y bydysawd, *the big bang*<br><br>DAMCANIAETH ESBLYGIAD – damcaniaeth sy'n ceisio egluro sut mae bywyd wedi cychwyn a datblygu ar y ddaear, *theory of evolution*<br><br>CHARLES DARWIN – awdur damcaniaeth esblygiad. | STIWARDIAETH – dyletswydd a roddwyd gan Dduw ar ddyn i ofalu am y ddaear.<br><br>STIWARDIAID- rhai sy'n gofalu am eiddo eraill, e.e. pobl yn gofalu am y ddaear.<br><br>ARGLWYDDIAETH - bod yn ben neu fod a grym dros eraill.<br><br>AWDURDOD – yr hawl i fod yn ben a bod gyda grym dros eraill.<br><br>KHALIFA – term Islam am stiward sy'n gofalu am y byd ar ran Allah.<br><br>UMMAH – brawdoliaeth Islam.<br><br>AHIMSA – yr egwyddor (mewn Bwdhaeth a Hindŵaeth) o beidio niweidio unrhyw beth byw gan barchu byd natur. | Allforio: anfon pethau i'w gwerthu dramor, *export*<br>Echdyniad: tynnu mwynau/glo etc allan o'r ddaear, *extract*<br>Jihad: term Mwslimaidd, ymdrechu i wneud rhywbeth<br>Hanukkah: gŵyl Iddewig sy'n dathlu sancteiddio (gweler isod) y Deml yn Jerwsalem adeg gwrthryfel y Macabeaid,<br>Menorah: canhwyllbren gydag 9 braich, *Jewish 9 branched candlestick*.<br>Môr Marw: llyn wrth ymyl Israel, Gwlad yr Iorddonen a Gwlad Palestina. Mae cymaint o halen yn y dŵr, mae'n anodd iawn nofio yno *the Dead Sea*<br>Plymio: *to dive*<br>Pererin (pererinion): pobl sy'n teithio i fan arbennig oherwydd eu crefydd, *pilgrim*<br>Llygredd: budreddi *pollution*<br>Pyllau anweddu: pyllau lle mae'r dŵr yn cael ei anweddu er mwyn cael mwynau allan o'r dŵr, *evaporation pools*<br>Argyfwng: *crisis*<br>Potsio: dwyn anifeiliaid yn anghyfreithiol i'w lladd, *to poach*<br>Jute: ffibr planhigyn arbennig. Caiff ei ddefnyddio i wneud rhaffau a defnydd<br>Prasad: pryd o fwyd sy'n cael ei fwyta ar ôl addoliad Hindŵaidd neu Sikhaidd<br>Ordeinio: gwneud person yn weinidog/offeiriad/mynach, *to ordain* |

| Teitlau | Creu'r Byd | Stiwardiaeth | Sut mae crefyddau yn ymateb i'w cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| | | | Sancteiddio: gwneud rhywbeth yn lân/pur/arbennig i Dduw, *to sanctify*<br>Mynach/mynaich: person sy'n gadael bywyd arferol bob dydd i fyw yn ôl rheolau crefydd arbennig, weithiau mewn cymuned arbennig *monk*<br>Amgylchedd: *environment*<br>Egwyddor/egwyddorion: *principles*<br>Annerbyniol: dim yn iawn, *unacceptable* |
| **Geiriau chwilio** | Gwyddonol<br>Bywyd<br>Creu<br>Gardd<br>Damcaniaeth<br>Bydysawd<br>Y ddaear<br>Sikhiaeth<br>Iddewiaeth<br>Cristnogaeth<br>Bwdhaeth<br>Ffrwydriad | Stiwardiaeth<br>Stiwardiaid<br>Awdurdod<br>Arglwyddiaeth<br>Cyfrifoldeb<br>Khalifa<br>Ummah<br>Ahimsa | Y Cam Mawr<br>Jihad<br>Môr Marw<br>ARC<br>Tanwydd ffosil<br>Newid hinsawdd<br>Ymgyrchu<br>Banciau<br>Ynni solar<br>Tirumala<br>Allyriadau<br>Alldynnu<br>Amgylcheddol |
| **Tasgau dosbarth** | **Tasgau estynedig sy'n gofyn i'r disgyblion i ddefnyddio'r 3 erthygl, cyfeirio at gredoau/dysgeidiaethau ac arferion crefyddol wrth ymateb i gwestiynau sylfaenol/crefyddol.**<br><br>**Llafaredd:**<br>• Gwahoddwch aelodau o gymunedau crefyddol gwahanol i'r dosbarth ar gyfer sesiwn 'hawl i'w holi'. Paratowch gwestiynau addas er mwyn canfod barn y gwesteion ar: *y creu, stiwardiaeth, ymdrechion eu cymunedau crefyddol i warchod yr amgylchedd, eu hymdrechion personol i warchod yr amgylchedd.* Bydd rhaid i chi drefnu bod rhywun ar gael i groesawu eich gwesteion a pharatoi lluniaeth ysgafn. | | |

| Teitlau | Creu'r Byd | Stiwardiaeth | Sut mae crefyddau yn ymateb i'w cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|

Bydd angen cadeirydd i lywio'r cyfarfod, diolchydd i gynnig gair o ddiolch ac wrth gwrs disgyblion sy'n barod i holi cwestiynau. Ystyriwch lunio erthygl ar gyfer gwefan yr ysgol neu'r papur bro er mwyn crynhoi safbwyntiau'r credinwyr.

- Mewn grwpiau o 4, penderfynwch pa bâr sydd yn mynd i ddadlau o blaid a pha bâr sydd yn mynd i ddadlau yn erbyn y datganiadau isod:
    - Ni allwn ddibynnu ar gredinwyr i warchod y blaned, rhaid i ni ddibynnu ar y gwyddonwyr.
    - Pan fyddwn wedi gorffen gyda'r blaned hon, gallwn symud i blaned arall.
    - Gwneud nid dweud. Mae'n hen bryd i gredinwyr dangos arweiniad wrth ddiogelu'r amgylchedd.
    - Nid oes lle i straeon creu ar gwricwlwm ysgol uwchradd.

**Creadigol:**

*Ystyriwch gydweithio gyda'r adran Gelf.*

- Mae artistiaid wedi dewis dehongli'r creu ac ymateb i heriau amgylcheddol ar ffurf paentiadau, cerfluniau a ffenestri lliw. Ymchwiliwch i ddau ddarn o gelf o'ch dewis chi a thrafodwch: *sut mae'r artist wedi cyfleu stori neu neges? I ba raddau mae'r darnau celf yn adlewyrchu dysgeidiaeth neu destunau crefyddol neu ddamcaniaeth wyddonol? Sut mae'r darnau celf yn debyg/yn wahanol i'w gilydd?* Gweler: Casgliadau ar-lein orielau mawr y byd, neu http://stainedglass.llgc.org.uk/main.php?func=search
- Sut mae plant a phobl ifanc wedi dehongli'r creu neu stiwardiaeth? Gweler: 'Spirited Arts' http://www.natre.org.uk/about-natre/projects/spirited-arts/spirited-arts-gallery/2012/. Sut fyddech chi'n dehongli themâu megis mewn darn o gelf: y creu, stiwardiaeth, y glec fawr, 'roedd Duw yn gweld bod hyn yn dda',

**Darllen**

- Gwrandewch ar stori lafar sy'n adrodd hanes y cread a darllenwch ddau fersiwn ysgrifenedig. Ystyriwch eich atebion i'r cwestiynau canlynol: *Pa fath o iaith sy'n cael ei defnyddio? Pa fath o ysgrifennu yw hwn (ffurf, genre)? I bwy lluniwyd y stori yn wreiddiol? Pam lluniwyd y stori?*

**Ysgrifennu**

- Eglurwch sut mae crefyddau yn dehongli'r cwestiwn, 'Byd pwy ydy hwn?'
- Sut mae credinwyr yn dehongli'r syniad o 'stiwardiaeth'? Oes rhaid bod yn grefyddol er mwyn bod yn 'stiward'?
- Beth mae ymrwymiad yn ei olygu i gredinwyr sydd am warchod yr amgylchedd? Sut ydych chi'n dangos ymrwymiad i warchod y blaned?
- Sut mae safbwyntiau crefyddol yn perthnasu â heriau amgylcheddol, *e.e. newid hinsawdd, llygredd plastig, darparu dwr glân i bawb?*
- Beth yw ymateb credinwyr yng Nghymru a'r byd tuag at warchodaeth amgylcheddol a chynaliadwyedd?
- '*Mae gwyddoniaeth (e.e. ffiseg a daeareg) yn ffordd o ddeall mwy am fawredd Duw'*. Sut byddai credinwyr/anghredinwr yn ymateb i'r datganiad hwn?

| Teitlau | Creu'r Byd | Stiwardiaeth | Sut mae crefyddau yn ymateb i'w cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| | • Gwnewch fap cysyniad yn dangos y cysylltiadau rhwng yr hyn yr ydych wedi ei ddysgu am yr amgylchedd yn eich gwersi iaith, daearyddiaeth, gwyddoniaeth ac addysg grefyddol.<br><br>**Rhifedd**<br>• Pa mor hen yw'r byd? Sut mae ffisegwyr a daearegwyr yn adrodd hanes y creu? | | |
| **Tasgau ymestynn ol** | • Ymchwiliwch i beth mae Hindŵaeth ac Islam yn ei ddweud am y creu. A ydynt yn debyg i'r adroddiadau crefyddol eraill?<br>• Dewiswch un adroddiad crefyddol a defnyddiwch destun, delweddau, sain, animeiddiad/fideo i gyflwyno'r stori ac i esbonio effaith y stori ar addoliad a ffordd o fyw credinwr. Ystyriwch beth yw pwrpas eich cyflwyniad. *A fyddwch gennych neges i bawb?*<br>• Pa ateb sy'n apelio fwyaf atoch? Lluniwch flog yn cyflwyno eich barn am y creu.<br>• Ymchwiliwch i ddau wyddonydd crefyddol ac ysgrifennwch erthygl bapur newydd yn cyflwyno eu syniadau.<br>• Gwahoddwch aelodau o gymunedau crefyddol gwahanol i'r dosbarth ar gyfer 'hawl i'w holi' ar y creu. | • Chwiliwch ar y Rhyngrwyd am wybodaeth am gorwyntoedd Harvey, Mora ac Irma.<br>I ba raddau y bu cynnydd yn y math yma o stormydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf?<br><br>• Ymchwiliwch i'r modd y mae newid hinsawdd wedi effeithio ar fywydau pobl ar draws y byd. Mae'r effaith wedi bod yn waeth lle'r oedd bywyd y tlawd yn ddigon bregus yn y lle cyntaf. *Beth yw eich barn am ymateb y gwledydd cyfoethog i'w sefyllfa? Beth yw ymateb cymunedau ac elusennau crefyddol? Sut ydych chi'n ymateb i'r her?*<br><br>• Yn ystod Haf 2017 bu corwyntoedd difrifol ym Mangladesh a Texas (UDA). Sut wnaeth y wasg yng Ngweledydd Prydain ymateb yn wahanol yn y ddau achos?<br><br>• Mae mwyafrif sylweddol o'r farn mae dyn sy'n gyfrifol am newid hinsawdd. Mae lleiafrif yn gwadu hynny. Gwnewch dwy golofn o ddadleuon, un o blaid ac un yn | • Rydych wedi darllen am ymdrechion credinwyr i ddiogelu'r byd naturiol a phethau byw. Yn aml mae eu cred neu ddysgeidiaeth crefyddol yn eu helpu i wneud penderfyniadau. Paratowch ddatganiad ar gyfer pob un. "Mae X wedi dewis gwneud hyn oherwydd..."<br><br>• Mae 8 diwrnod rhwng Diwrnod Nadolig a'r Calan (diwrnod cyntaf y flwyddyn). Gwnewch restr yn cyflwyno awgrymiadau beth allai person ei wneud dros yr amgylchedd ar y dyddiau hynny, er enghraifft Diwrnod Nadolig: ailgylchu unrhyw gardfwrdd neu focs oedd yn cynnwys anrheg Nadolig<br><br>• Ysgrifennwch lythyr at eich Aelod Seneddol neu eich Aelod Cynulliad yn disgrifio cymaint ydych chi'n poeni am yr amgylchedd, ac yn gofyn am eu help i'w amddiffyn. Rhowch enghreifftiau o'r hyn sy'n eich poeni. |

| Teitlau | Creu'r Byd | Stiwardiaeth | Sut mae crefyddau yn ymateb i'w cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| | | erbyn.<br><br>• Edrychwch ar farn Cristnogaeth, Islam a Bwdhaeth ar stiwardiaeth dyn dros y ddaear. Lluniwch deg o reolau ar thema Gofal am yr Amgylchfyd y byddai'r tair crefydd yn cytuno arnynt.<br><br>• Mae'r Dalai Lama'n enwog am ei ddywediadau bachog. Defnyddiwch y We i chwilio am rhai o'i ddywediadau bachog ac effeithiol ar stiwardiaeth dyn dros y ddaear. Gwiriwch fod y ffynonellau gwybodaeth yn gyfredol, yn ddibynadwy ac yn ddilys.<br><br>• Yn y gwaith darllen ar Fwdhaeth a Stiwardiaeth mae llun o'r byd yn dioddef. Chwiliwch am luniau pellach sy'n darlunio cyflwr y byd heddiw. Bydd angen rhai sy'n adlewyrchu'r problemau ac eraill mwy cadarnhaol.<br><br>• Lluniwch boster sy'n darlunio cyflwr y byd fel yr ydych chi yn ei weld. Ychwanegwch sylwadau i esbonio'r hyn yr ydych yn ceisio ei gyfleu. Esboniwch pam fyddai credinwr yn dewis/peidio dewis arddangos eich poster mewn addoldy neu stafell gyfarfod? | • Beth allai capel neu eglwys ei wneud i geisio amddiffyn yr amgylchedd? Lluniwch restr. Atgoffwch yr aelodau o'r dysgeidiaeth crefyddol sy'n sail i'w cred a'u gweithroedd.<br><br>• Lluniwch boster/daflen yn annog pobl i weithredu fel eco gôl-geidwaid a rhwystro mwy o ddifrod i'r amgylchedd. Chwiliwch am enghreifftiau o bosteri/taflenni amgylcheddol gan gymunedau crefyddol. Sut mae'r posteri/taflenni yn debyg/yn wahanol i'ch poster chi? |

| Teitlau | Creu'r Byd | Stiwardiaeth | Sut mae crefyddau yn ymateb i'w cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| **Adnoddau pellach** | Beth am edrych ar wyddonwyr Cymreig megis:<br><br>Alfred Russell Wallace<br>https://amgueddfa.cymru/caerdydd/addysg/adnoddau/alfred_russel_wallace/<br><br>Lyn Evans<br>http://www.thevalleys.co.uk/heroes-search/hero.aspx?h=15&lang=cy<br>http://golwg360.cymru/newyddion/cymru/78050-darganfod-gronyn-duw | Tiwtorial Newid Hinsawdd i ddisgyblion CA3<br>http://www.ecn.ac.uk/what-we-do/education/cy/climate/climate-change-tutorial | Capel y Nant, Clydach (Gwler Y Papur Gwyrdd)<br>https://ypapurgwyrdd.com/2017/06/29/pobl-capel-y-nant-a-beicwyr-kenya-yn-unol-o-blaid-ynni-glan/<br>Holiadur Newid Hinsawdd yr Eglwys yng Nghymru<br>http://cym.eglwysyngnghymru.org.uk/news/2015/12/gofyn-i-eglwysi-gynnal-archwiliad-newid-yn-yr-hinsawdd/<br>Caring for God's Acre – diogelu bywyd gwyllt mynwentydd.<br>http://www.caringforgodsacre.org.uk/<br><br>Buddsoddi'n gyfrifol<br>https://www.theguardian.com/environment/2017/oct/03/catholic-church-to-make-record-divestment-from-fossil-fuels |
| | http://www.bbc.co.uk/programmes/articles/3lKZp31jBVJ2v3C2h1V03kz/a-to-z-of-religion-and-beliefs<br><br>Hindu festival chokes Indian waterways with flowers and idol debris \| World news \| The Guardian | | |